**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Mercher, 19eg Mai, 2021 at 10.00 am**

**YN BRESENNOL:**

**CYNRYCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:**
County Councillors: P.Pavia, T.Thomas, L.Brown and M. Powell

**CYNRYCHIOLWYR FFYDD:**
Revd. J. Greaves
Mr. N. Pryor
Mr. A. Szwagrzak
Mrs S. Cave

**CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON:**

Mrs S. Hamer

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Sharon Randall-Smith | Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Paula Webber, | RE Adviser (EAS) |

**APOLOGIES:**

N. Jenkins and S. Gooding

1. **Cadarnhad o benodiad yr Aelod Cabinet dros Addysg gan Gyngor y Cabinet fel Cadeirydd CYSAG**

Cadarnhawyd mai'r Cynghorydd Sir P. Pavia, Aelod Cabinet Addysg, yw'r Cadeirydd a benodwyd gan y Cyngor Sir.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn brseennol.

3. **Diweddariadau Aelodaeth CYSAG**

Rhoddodd y Clerc ddiweddariad ar yr aelodaeth fel sy'n dilyn

**Cynghorwyr Sir:**
Cynghorydd Sir L. Brown: Wedi symud o fod yn cynrychioli'r Eglwys Fethodistaidd
Cynghorydd Sir T. Thomas
Cynghorydd Sir P. Pavia

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Mercher, 19eg Mai, 2021 at 10.00 am

Cynghorydd Sir M. Powell (newydd): Penodwyd 12 Mai 2021
Lle gwag (yn flaenorol Cynghorydd Sir A. Webb)
Lle gwag (yn flaenorol Cynghorydd Sir J. Watkins)

**Cynrychiolwyr Ffydd:**
Cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru (1): Lle gwag (Sharon Randall-Smith i gysylltu
Cynrychioli'r Eglwys Gatholig (1): A. Szwagrzak
Cynrychioli Cyngor yr Eglwysi Rhyddion (4)

- Lle gwag (Cynghorydd Sir L Brown i wneud trefniadau i lenwi'r lle gwag)
- Suzanne Gooding (Eglwys Bresbyteraidd/Eglwys y Bedyddwyr)
- Parch J Greaves
- Nick Pryor (Byddin yr Iachawdwriaeth)

Cynrychioli'r Ffydd Baha'i: Mrs. S. Cave
Cynrychioli'r Ffydd Bwdhaidd: Ngakpa Namgyal Chatral
Cynrychioli'r Ffyrdd Hindŵaidd: Lle gwag
Cynrychioli'r Ffydd Iddewig: Lle gwag
Cynrychioli'r Ffydd Mwslimaidd: Lle gwag
Cynrychioli'r Ffydd Sikhaidd: Lle gwag

**Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon (7)**

Lle gwag
Mr. N. Jenkins
Lle gwag - Ms. C. Smith: yn awr yn gweithio tu allan i'r sir
Lle gwag posibl - Ms. K. Wilding: ar secondiad
Lle gwag - Ms. K. Christofi: Gormod o ymrwymiadau – hapus i gamu lawr.
Ms. M. Millington
Mrs. S. Hamar

GWEITHREDU: Sharon Randall -Smith i godi mater lleoedd gwag gyda JAG

**Aelodau Cyfetholedig (2)**
Lle gwag
Lle gwag

**Ymgynghorydd Addysg Grefyddol**
Paula Webber

**Cynrychioli'r Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc**
Sharon Randall-Smith

Mynegwyd pryder am y diffyg amrywiaeth yn y ffyddau a gaiff eu cynrychioli a phenderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Rhyng-ffydd i gael cymorth wrth lenwi lleoedd gwag. Cytunwyd y gellid enwebu person ifanc fel Aelod Cyfetholedig drwy'r Fforwm Ieuenctid (gyda sicrwydd asesiad risg diogelu perthnasol). Cytunwyd hefyd i gynnig lle cyfetholedig i'r Cyngor Rhyng-ffydd.

CAMAU GWEITHREDU: Y Clerc/Paula Webber i gysylltu â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru yng nghyswllt cynrychiolaeth ffydd. Sharon Randall-Smith i wneud trefniadau ar gyfer cynrychiolydd pobl ifanc.

4. **Y wybodaeth ddiweddaraf gan Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y GCA**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Mercher, 19eg Mai, 2021 at 10.00 am**

Rhoddodd Paula Webber, Cynghorydd Addysg Grefyddol, gyflwyniad i ddiweddaru pawb ar ddatblygiadau ers y cyfarfod blaenorol gan roi sylw i'r dilynol:

- Datblygu Cwricwlwm ac Asesiad: gwnaed rhai addasiadau yn dilyn derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu yn awr yn gyfraith. Mae'n rhaid i'r maes llafur a gytunwyd gennym roi ystyriaeth i'r Cwricwlwm i Gymru a maes dysgu a phrofiad Dyniaethau. Cylchredwyd y sleidiau'n amlinellu'r prif newidiadau.
- Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol: Mae EAS wedi dechrau dysgu proffesiynol Uwch Arweinyddiaeth. bydd hyfforddiant Arweinyddiaeth Ganol yn dechrau ar ôl hanner tymor. Trefnwyd cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Dyniaethau a Phenaethiaid Crefydd Gwerthoedd a Moeseg (RVE). Mae Paula ar gael i gwrdd gydag ysgolion yn y Sir, hefyd yr arweinwyr cwricwlwm o Rhwydwaith Dysgu Ysgolion ar gyfer datblygu cwricwlwm.
- Cyllid ar gyfer rhaglen o Ddysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer RVE: Croesawyd y newyddion y rhoddwyd cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol.
- Fframwaith cefnogi RVE – credir y cafodd y drafft ei gwblhau. Disgwyliwn hysbysiad am drefniadau ymgynghori.
- Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru: nid oes diweddariad ar gael. Cyflwynwyd ymateb CYSAG a disgwylir y canlyniad.
- TGAU a Lefel A: cydnabyddir fod athrawon dan bwysau sylweddol wrth gynnal asesiadau ar y ddwy lefel.
- Rôl CYSAG mewn Monitro a Chefnogi RVE: Disgwylir canllawiau. Cytunwyd y dylai CYSAG drafod y cyfrifoldeb hwn ac yn y cyfamser gofynnwyd am fynediad i'r Hwb ar gyfer aelodau CYSAG sy'n dymuno cael mynediad i adnoddau.
- Estyn: Holwyd am ddulliau arolygu'r dyfodol a rôl CYSAG. Cytunwyd y dylid gofyn i CYSAG Cymru os oes cynlluniau i gwrdd gydag Estyn. Rhoddwyd diweddariad am newidiadau i arolygu oherwydd y pandemig ac i newidiadau yn y rheoliadau ar gyfer casglu a chofnodi data. Ni fydd arolygiadau yn cynnwys barn a rhoddir enghreifftiau yn y testun o safonau a welwyd. Bydd hunanarfarnu yn allweddol. Dylai CYSAG ei fodloni ei hun am reolaeth ysgolion wrth gyflwyno'r cwricwlwm yn RVE. Fel man cychwyn, byddwn yn gofyn am ddatganiad safle a hwyluswyd gan EAS [GWEITHREDU: SRS].
- Gweithgor Gweinidogol (cyfraniadau BAME, y gymuned a Cynefin yn y cwricwlwm newydd). Bydd y Cynghorydd Addysg Grefyddol yn canfod os oes dolen ar gael i'r recordiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn 51 argymhelliad gyda £500,000 ar gyfer gweithredu yng Nghymru. Rhaid bod dull gweithredu ysgol gyfan a bydd RVE yn ffurfio rhan sylweddol. Mae angen i CYSAG drafod yr hyn y gall ei wneud i gefnogi ysgolion.
- Podlediadau Dyniaethau EAS: Mae detholiad ar gael yn gyfleus ar wefan EAS.
- Adnoddau ar gyfer ysgolion: Mae'r adnoddau a argymhellir ar gael i'r Rhwydwaith Rhyng-ffydd (DU). Dylid anfon y ddolen i ysgolion ond gall fod yn rhaid addasu'r cynnwys er mwyn cydymffurfio.

Gwnaeth Aelod o'r grŵp y pwyntiau dilynol:

- Gofynnwyd am y sleidiau cyflwyno.
- Yng nghyswllt BAME, dywedwyd nas ymgynghorwyd â Grwpiau Ffydd. Cytunwyd fod hwn yn bwynt pwysig. Holwyd os bydd ymgynghoriad tebyg gyda ffydd a chredo. Byddir yn codi'r pwynt hwn gyda CYSAG Cymru.
- Ar gyfer yr ymgynghoriad ar ddrafft fframwaith RVE, gofynnwyd am i ddolen gael ei chylchredeg at bob aelod.
- Yng nghyswllt ymgynghoriad Estyn a gylchredwyd yn ddiweddar, nodwyd y gwnaed sylwadau wrth brosesu'r Bil ac y nodwyd rhai camgymeriadau.
- Nid oes unrhyw newidiadau i arolygiad A50 o ysgolion ffydd.
- Mae gan EAS wefan "Cefnogi ein Hysgolion" y gellid ei ddefnyddio yn lle'r Hwb neu yn y cyfamser. Cadarnhawyd fod adran Dyniaethau gydag adran RVE gyda manylion pob CYSAG, rhai adnoddau a phodlediadau. Bwriedir ychwanegu rhestr chwarae RVE.

- Gofynnwyd am fanylion pellach am sylwadau ac argymhellion a gafodd eu bwydo yn ôl ac na symudwyd ymlaen â nhw. Cadarnhawyd y cafodd y sylwadau a'r argymhellion eu hystyried mewn proses drylwyr e.e. eu trafod gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac Addysg ac y bu pleidlais ar hyn yn y Senedd.
  .

Diolchwyd i Paula am ei hadroddiad.

**5. Y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau ategol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru (mwy o wybodaeth i ddilyn)**

Nodwyd y bu oedi yn y dyddiad ymgynghori. Gobeithir y bydd ar gael ar gyfer i ni ei ystyried yn y dyfodol agos. Caiff ei gylchredeg cyn gynted ag y bydd ar gael.

Cytunwyd y byddai angen i ni roi ystyriaeth fanwl i'r canllawiau cefnogi RVE a chynigwyd cynnal cyfarfod arbennig (gofynnwyd am gyfarfod wyneb i wyneb). Gofynnwyd i Aelodau ddarllen ac anodi'r ddogfen cyn y cyfarfod.

Tanlinellwyd pwysigrwydd ymgynghori ar y canllawiau gan mai hyn yn y pen draw fydd y sail ar gyfer y gynhadledd ar y maes llafur a gytunwyd.

**6. Busnes CYSAG Cymru**

Bydd Sue Cave a'r Cynghorydd Sir Louise Brown yn mynychu cyfarfod CYSAG Cymru o bell ar 16 Mehefin 2021. Mae un lle arall ar gael felly gofynnwyd am ddatganiadau diddordeb.

**7. Cofnodion cyfarfod CYSAG Cymru a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2021**

Derbyniwyd y cofnodion. Dan 'Cyflwyniad NAPfRE – Bil Cwricwlwm' nodwyd y dylai'r ddilynol ddarllen:

"Yn y ddeddfwriaeth ar gyfer y ddeddf cydraddoldeb maent yn rhoi eithriad ar gyfer gwahaniaethu yng nghyswllt ~~cyd-destun~~ cynnwys addysg grefyddol sydd angen ei gadw mewn cof".

**8. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mercher, 24ain Chwefror, 2021 am 10.00am**

Nodwyd y cofnodion.

**9. I gadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf CYSAG fel yr 20fed Hydref 2021**

**Y cyfarfod diwedd yn 11.00 am**